**Cydgyfarfod y Cynghorau**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 1.00 p.m. ddydd Iau 23 Tachwedd 2023 yn Neuadd Vivian, Canolfan Dylan Thomas, Abertawe

Yn bresennol:
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans KC (Is-Ganghellor)
Justin Albert
Natalie Beard
Arwel Ellis Owen
Geraint Evans
Taya Gibbons
Uzo Iwobi
Rowland Jones
Timothy Llewelyn
Yr Athro Conny Matera Rogers
Nigel Roberts
Maria Stedman
Emlyn Schiavone
Dr Liz Siberry
Yr Hybarch Randolph Thomas
Iwan Thomas
Dr Kerry Tudor
Dr Stuart Robb

Yn gweinyddu:
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Dr Andrew Cornish, Prifathro, Coleg Sir Gâr
Rebecca Doswell, Clerc
Shone Hughes (Pennaeth Staff)
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)
Caryl Bond

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| 23.55<br>Croeso ac Ymddiheuriadau am absenoldeb | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Geraint Roberts, yr Athro Kyle Erickson, Dr Peter Spring, Deris Williams. | |
| 23.56<br>Adroddiad y Cadeiryddion | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeiryddion (JCO223).<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu i'w gyfarfod cyntaf.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cyfarfod CPC ar-lein ar 3 Hydref 2023, a oedd wedi rhoi cyfle i gwrdd â Chadeiryddion eraill a swyddogion CPC i drafod materion a heriau'r sector.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd ar daith ddiweddar o gwmpas campws Abertawe a diolchodd i'r swyddogion a oedd wedi trefnu ac ymuno ag aelodau ar y daith.<br><br>Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod olaf yr Hybarch Randolph Thomas a Maria Steadman a diolchodd iddynt am eu hymrwymiad, eu harweinyddiaeth a'u gwasanaeth eithriadol i'r Cynghorau a'r Grŵp. Cydnabu'n bersonol eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn Gadeirydd Dynodedig ac yn ystod y tri mis diwethaf ers cymryd drosodd rôl y Cadeirydd. | |
| 23.57<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | Rhoddodd yr Is-Ganghellor ddiweddariad i'r aelodau ar faterion strategol a diolchodd iddynt am eu cefnogaeth sylweddol ers dechrau yn y rôl..<br><br>Adroddodd yr Is-Ganghellor fod yr Uwch Dîm ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar fusnes craidd ac ar sicrhau eglurder data a gwybodaeth rheoli i reoli'r trywydd yn gadarn. Byddai hefyd yn ailffocysu tîm yr Uwch Dîm i sicrhau eglurder perchnogaeth a chyfrifoldebau.. Cyfeiriodd at benodi Peter Mannion i rôl newydd y Prif Swyddog Gweithredu, rôl bwysig ar gyfer dod â chymhlethdodau gweithredol y Brifysgol ynghyd..<br><br>Dywedodd yr Is-Ganghellor wrth y Cynghorau fod archwiliad Ofsted yn y Brifysgol ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio ar brentisiaethau.<br><br>Nododd yr Is-Ganghellor y byddai hi a'r uwch dîm yn canolbwyntio ar Gynllunio Strategol y Brifysgol yn y flwyddyn newydd. | |
| 23.58 | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad Undeb y Myfyrwyr (JCO225). | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| Adroddiad Undeb y Myfyrwyr | Diolchodd Llywydd y Myfyrwyr i'r Hybarch Randolph Thomas a Maria Steadman am eu cefnogaeth barhaus iddi hi ac Undeb y Myfyrwyr.<br><br>Cyfeiriodd Llywydd y Myfyrwyr at ei blaenoriaethau a rhai Llywyddion y Campysau am y flwyddyn, a oedd yn cynnwys gwelliannau i'r hybiau bwyd, a chodi ymwybyddiaeth o'r rhain. Dywedodd y byddai'r Undeb Myfyrwyr yn cynnal arolwg o anghenion myfyrwyr i lywio'r hyn oedd ei angen o fewn yr hybiau yn enwedig yn Llundain a Birmingham.<br><br>Dywedodd yr Is-Ganghellor wrth aelodau bod y Brifysgol wedi cytuno i beidio â chynnal Cinio'r Sylfaenwyr yn Llanbedr Pont Steffan y flwyddyn honno, ac yn lle hynny y byddai'n rhoi swm i'r hybiau bwyd myfyrwyr.<br><br>Cytunodd yr Aelodau ar bwysigrwydd goresgyn stigma hybiau bwyd ac annog y Brifysgol i weithio gyda chynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd lleol i ddarparu cynnyrch gwerthfawr yn ei chymunedau.<br><br>Cyfeiriodd Llywydd y Myfyrwyr at lesiant a'r ffocws ar wella ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr o'r cymorth lles ac iechyd meddwl presennol sydd ar gael.<br><br>Adroddodd Llywydd y Myfyrwyr ar ffocws yr UM ar gydraddoldeb hiliol a chyflawni eu hamcanion. Byddai'r Undeb Myfyrwyr yn gweithio gyda'r Brifysgol i sicrhau ei marc siarter ar gydraddoldeb hiliol.<br><br>Cyfeiriodd Llywydd y Myfyrwyr at effeithiau tlodi ar gymuned y myfyrwyr a cheisiodd gymeradwyo'r Cynghorau ar gyfer sefydlu Grŵp Costau Byw i edrych ar effaith ac ymateb i faterion costau byw ar draws staff a myfyrwyr y Brifysgol. Cynigiodd y byddai'r trefniadau cadeirio yn cael eu rhannu rhwng yr Is-Ganghellor a Llywydd y Myfyrwyr ac yn cynnwys arweinwyr swyddogion allweddol yn aelodau.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y cais a gofyn i swyddogion weithio gydag Undeb y Myfyrwyr i drafod cylch gorchwyl ac aelodaeth.<br><br>Adroddodd Llywydd y Grŵp ar greu strategaeth chwaraeon sy'n cael ei chefnogi ar draws y chwe safle gydag amcanion strategol fesul safle ar gyfer ymgysylltu a chyfranogiad. Yn ogystal, mae Llywydd y Grŵp wedi bod yn gweithio ar brosiect o'r enw 'BUCS UNIversal Gym' sy'n caniatáu i fyfyrwyr gael mynediad i gyfleusterau chwaraeon mewn prifysgolion ledled Cymru a Lloegr ble bynnag fo'r campws. Cytunodd y byddai'n rhannu'r wybodaeth hon ar draws y Grŵp hefyd.' | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| | Canmolodd y Cadeirydd waith Llywydd y Myfyrwyr a'i thîm. | |
| 23.59<br>Materion rheoli risg | YSTYRIODD y Cynghorau'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (JCO226).<br><br>Roedd y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i diweddaru mewn ymgynghoriad â pherchnogion risg arweiniol strategol. Dywedodd y Clerc y byddai awydd risg y Brifysgol yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd i gefnogi dull y Brifysgol o reoli risg a sicrwydd. Byddai'r Polisi Rheoli a Sicrhau Risg Grŵp yn cael ei adolygu yn y flwyddyn newydd ac argymhellion yn cael eu cyflwyno i ARC a'r Cyngor.<br><br>Adroddodd y Clerc fod ARC wedi cymeradwyo'r gwelliannau canlynol yn flaenorol a oedd bellach yn cael eu hadlewyrchu yn y Gofrestr a ddiweddarwyd:<br>• Risg 7 Campws Llundain a Birmingham – gwnaed diwygiad i'r datganiad risg i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r amgylchedd gweithredu presennol.<br>• Risg 18 Trefniadau Rheoleiddio Newydd wedi'u hychwanegu at y Gofrestr.<br><br>Adroddodd y Clerc fod yr Is-Ganghellor hefyd wedi argymell bod Risg 13 Llywodraethu yn cael ei harchifo oherwydd gweithredu'r ymateb a'r rheolaethau risg yn llwyddiannus.<br><br>Ymatebodd yr Is-Ganghellor i ymholiadau'r aelodau ynglŷn â seiberddiogelwch gan ddweud mai'r Brifysgol oedd yr unig un yng Nghymru i ddal achrediad o ran Cyber Essentials Plus a bod seiberddiogelwch ar flaen y gad o ran ffocws yr Uwch Dîm: er na allai fod unrhyw warantau. Nododd y DFS fod y system gyllid yn cael profion straen yn fisol a'i bod wedi'i diogelu gan gyswllt adnoddau a chwmwl yn ogystal â gwasanaeth trydydd parti.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau:<br>• Y Gofrestr Risg Gorfforaethol<br>• Archifo risg 13 - Llywodraethu. | |
| 23.60<br>Datganiad caethwasiaeth fodern – adroddiad blynyddol | YSTYRIODD y Cynghorau adroddiad blynyddol y datganiad Caethwasiaeth Fodern (JCO227).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y datganiad sy'n awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r datganiad ar ran Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Cymru. | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| 23.61<br>Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | YSTYRIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023 (JCO228).<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau benderfyniad NGC i ohirio'r adolygiad effeithiolrwydd Llywodraethu tan 2024/25 a chytunwyd bod yr amserlen wedi'i symud ymlaen i alluogi'r adolygiad i ganolbwyntio ar ddiwylliant y Brifysgol yn y dyfodol.<br><br>Cytunwyd hefyd bod recriwtio Llywodraethwyr wedi'i ohirio nes cwblhau’r archwiliad o'r sgiliau presennol. | |
| 23.62<br>Protocol cyfarfodydd | YSTYRIODD y Cynghorau y protocol cyfarfodydd diwygiedig (JCO229) a CHYMERADWYO argymhelliad yr NGC y parhaodd camerâu aelodau arno yn ystod cyfnod y cyfarfodydd ar-lein..<br><br>Cytunodd y Cynghorau hefyd fod y protocolau yn cael eu hadolygu'n barhaus. | |
| 23.63<br>Adroddiad cynnydd cynllun gweithredu Camm | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cynnydd cynllun gweithredu Camm (JCO230). | |
| 23.64<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 | CYMERADWYODD y Cynghorau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 (JCO231). | |
| 23.65<br>Pwyntiau Gweithredu | DERBYNIODD y Cynghorau'r tabl gweithredu diweddaraf o bwyntiau gweithredu. | |
| 23.66<br>Adroddiad blynyddol Prevent | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad blynyddol Prevent (JCO233). | |
| 23.67<br>Strwythur cydffederal : diweddariad | DERBYNIODD y Cynghorau'r diweddariad ar y strwythur Cydffederal (JCO234). | |
| 23.68 | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad blynyddol Enwebiadau a Llywodraethu (JCO235). | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| Adroddiad blynyddol Enwebiadau a Llywodraethu | | |
| 23.69<br>Datgan buddiannau | Derbyniodd y Cynghorau'r datganiad buddiant ychwanegol canlynol :<br><br>Iwan Thomas - eitem 23.58 – cysylltiadau â banciau bwyd cymunedol. | |
| 23.54<br>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25 Ionawr 2024. | |

Caeodd y cyfarfod am 2.10 p.m.